# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-15-08 (p2): 20 Tachwedd 2008

### Crynodeb o weithgaredd y pwyllgor yn 2008

### Diben

Diben y papur hwn yw crynhoi gweithgaredd Pwyllgor Cyfle Cyfartal Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystod blwyddyn galendr 2008 yn y Trydydd Cynulliad.

### Trosolwg o weithgaredd y pwyllgor

Yn ystod blwyddyn galendr 2008, cynhaliodd y pwyllgor 15 cyfarfod ffurfiol. Cynhaliwyd un cyfarfod allanol yn Wrecsam fel rhan o ymchwiliad y pwyllgor i faterion sy'n effeithio ar weithwyr mudol, eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Fel rhan o weithgaredd y pwyllgor yn Wrecsam, ymwelodd â chanolfan eiriolaeth a chyngor ar gyfer gweithwyr mudol ym Mharc Caia.

### Ymchwiliadau

Yn 2008, cynhaliodd y pwyllgor ymchwiliadau i:

faterion sy'n effeithio ar weithwyr mudol, eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw ac yn gweithio ynddynt

hygyrchedd gwybodaeth

gwasanaethau Cynnal a Chadw'u Cartrefi a Gwasanaethau Addasiadau ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru

Mae'r pwyllgor wedi cwblhau dau o'r ymchwiliadau hyn, ac wedi cyflwyno adroddiadau arnynt. Y bwriad yw casglu tystiolaeth bellach am yr ymchwiliad a lansiwyd gan y pwyllgor yn ddiweddar, sef 'Gwasanaethau Cynnal a Chadw'u Cartrefi a Gwasanaethau Addasiadau ar gyfer Pobl Hyn yng Nghymru,' yn 2009.

### Gwaith craffu

Mae'r pwyllgor wedi craffu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch datblygiad yr ymgyrch cyflog cyfartal, 'Cau'r Bwlch Cyflog'. Bu'r pwyllgor yn gohebu â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, a TUC Cymru, mewn perthynas â sefydlu gweithgor i gyd-gysylltu datblygiad yr ymgyrch cyflog cyfartal.

Mae'r pwyllgor hefyd wedi craffu ar Lywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch y cynnydd mae wedi ei wneud o ran gweithredu adolygiad y pwyllgor o Ddarparu Gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc Anabl yng Nghymru, a baratowyd yn ystod yr Ail Gynulliad. Fel rhan o'r gwaith craffu hwn, cafwyd tystiolaeth gan aelodau'r grwp cyfeirio Pobl Ifanc Anabl a roddodd arweiniad wrth baratoi'r adroddiad gwreiddiol.

Mae'r pwyllgor wedi craffu ar gyllideb ddrafft 2009-10 Llywodraeth Cynulliad Cymru o safbwynt prawf-fesur cydraddoldeb ac wedi cyfleu ei gasgliadau i'r Pwyllgor Cyllid

Bydd y pwyllgor yn craffu ar Adroddiad Blynyddol 2007-08 Comisiwn y Cynulliad ar Gydraddoldeb, ar 4 Rhagfyr 2008.

### Hyrwyddo ac ehangu cyfranogiad pobl mewn datganoli

Mae'r pwyllgor wedi ceisio hyrwyddo ac ehangu cyfranogiad pobl mewn datganoli, cynnal cysylltiadau gwerthfawr â rhanddeiliaid drwy gysylltu â hwy yn ysgrifenedig a'u gwahodd i gyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol. Bydd y pwyllgor yn cyfarfod yn anffurfiol â phwyllgorau cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban, i rannu arferion da a thrafod pryderon a diddordebau sy'n gyffredin iddynt. Mae'r pwyllgor wedi cydweithio gyda'r rhaglen Sefydliad Coffa John Smith, yn cyfarfod â gwleidydd ifanc a thalentog o Georgia, fel rhan o raglen ddwys bum wythnos ar lywodraethu da, democratiaeth a chyfiawnder cymdeithasol. Mae ysgrifenyddiaeth y pwyllgor hefyd wedi darparu cymorth logistaidd ar gyfer ymchwiliad pwyllgor y Corff Rhyngseneddol Prydeinig-Gwyddelig i integreiddio mudwyr sydd wedi cyrraedd yn ddiweddar.